# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 418A2017



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins, Lisa Williams a Dave Wilson o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith drwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 | 4 |
| Mae'r Cyngor yn debygol o fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ar yr amod ei fod yn gwreiddio trefniadau a fydd yn ei alluogi i wynebu heriau presennol a heriau'r dyfodol | 4 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 5 |
| Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17 | 6 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn | 14 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 15 |
| Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 | 18 |

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu hyd a lled y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ei hun. Yn ystod 2016-17, ymgymerwyd â gwaith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau a chynllunio gwelliant ac adrodd arno. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn gan archwiliadau lleol ar sail risg, a nodir yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn debygol o fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ar yr amod ei fod yn gwreiddio trefniadau a fydd yn ei alluogi i wynebu heriau presennol a heriau'r dyfodol

3 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol [fod y/nad yw'r] Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18, ar yr amod ei fod yn ymgorffori trefniadau i'w alluogi i ddiwallu heriau cyfredol a heriau yn y dyfodol.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) fel rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17

## Arddangosyn 1: Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17

Disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', lle y bo'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Mawrth 2017 | **Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau i Wasanaethau** Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn eto nac yn cael eu defnyddio'n effeithiol bob amser:<br>• mae gan y Cyngor weledigaeth a fframwaith ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'n glir eto ar ba ffurf nac ar ba raddfa y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu;<br>• ar y cyfan, mae swyddogion ac Aelodau yn dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a chyfrifoldebau o ran penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni, ac mae'r Cyngor yn rhoi cymorth parhaus i wella eu heffeithlonrwydd;<br>• mae'r Cyngor yn ystyried ystod o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hesbonio'n llawn mewn adroddiadau ac achosion busnes;<br>• mae gan y Cyngor ddull systematig o ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau ac mae'n gallu dangos ei fod yn gwrando ar eu barn, ond nid yw'n glir bob amser mewn adroddiadau ac achosion busnes sut y caiff barn rhanddeiliaid ei hystyried wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau; | Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy wneud y canlynol:<br>C1 Darparu rhagor o hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau bod swyddogion ac Aelodau yn deall cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf.<br>C2 Gwella ansawdd ei arfarniadau o opsiynau drwy ddarparu gwybodaeth sy'n dangos sut y cafodd opsiynau eu gwerthuso.<br>C3 Sicrhau bod adroddiadau sy'n cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn cynnwys canlyniadau gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ac yn dangos sut y mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cynigion.<br>C4 Nodi, pan wneir penderfyniadau ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau, sut y caiff effaith newidiadau arfaethedig ei mesur a'i monitro. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • nid yw'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau i wneud newidiadau i wasanaethau ar drigolion lleol mewn modd systematig; ac<br>• mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau ac yn gwneud gwelliannau er mwyn mynd i'r afael â gwendidau a nodir ganddo. | |
| **Y Defnydd o Adnoddau** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Llythyr Archwilio Blynyddol**<br>Llythyr sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. | • Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.<br>• Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2017 | **Cynllunio Arbedion**<br>Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau arbedion ariannol, gan gynnwys pa mor dda y mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a chyflawni arbedion cyllidebol, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Er nad oes gan y Cyngor gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod, mae'n parhau i atgyfnerthu ei fframwaith cynllunio ariannol er mwyn cefnogi cydnerthedd ariannol yn well yn y dyfodol:<br>• mae'r Cyngor yn nodi ei fod wedi cyflawni 88% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni;<br>• mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei fframwaith cynllunio ariannol ond nid yw ei gynlluniau dangosol yn ddigon manwl ac mae'n bosibl nad yw'n defnyddio ei gronfeydd wrth gefn mewn modd cynaliadwy; ac<br>• mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer monitro arbedion ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni 98% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2016-17, ond mae'r cynigion arbedion yn amrywio o ran manylder. | C1 Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:<br>• rhoi statws risg i gyflawnadwyedd Prosiectau Effeithlonrwydd Ariannol;<br>• datblygu cynlluniau arbedion dangosol i gwmpasu cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;<br>• cynnwys yr holl bwysau cyllidebol cylchol hysbys yn y gyllideb sylfaenol;<br>• sicrhau bod achosion busnes Prosiectau Effeithlonrwydd Ariannol a gyflwynir i'r Aelodau yn ddigon manwl er mwyn dangos y camau arfaethedig yn glir a'u galluogi i graffu'n gadarn ar y broses o'u cyflawni'n briodol drwy gydol y flwyddyn; a<br>• chynllunio'r defnydd o gronfeydd wrth gefn dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. |
| **Archwilio perfformiad lleol ar sail risg** | | | |
| Mehefin 2017 | **Technoleg Gwybodaeth**<br>Adolygiad i asesu p'un a yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a godwyd yn ein hadolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth yn 2011 yn effeithiol. | Mae'r Cyngor yn cydnabod bylchau yn ei allu i ddarparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth (TG) ac mae'n dechrau sicrhau buddiannau ei bartneriaeth â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir:<br>• nid oes gan y Cyngor Strategaeth TG gyfredol ond mae'n gweithio i lunio strategaeth gomisiynu a strategaeth TG sy'n adlewyrchu ei bartneriaeth â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir a'r gwasanaethau a gadwyd ganddo; | C1 Datblygu strategaeth sy'n ystyried y bartneriaeth â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir a'r gwasanaethau TG a gadwyd.<br>C2 Cynnal adolygiad ffurfiol o'r anghenion parhaus o ran gallu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael y buddiannau mwyaf posibl o'i fuddsoddiad mewn TG. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • mae'r Cyngor bellach yn rheoli TG fel adnodd corfforaethol ac mae'n rhoi mwy o ffocws ar berfformiad TG; ac<br>• mae'r Cyngor wedi cynnal systemau a gwneud trefniadau i gyflawni prosiectau TG ers ffurfio partneriaeth â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir, ond mae'r gwelliannau ar gam cynnar iawn ac mae angen adolygu'r gallu parhaus. | |
| | **Rheoli Asedau**<br>Adolygiad i asesu p'un a yw trefniadau rheoli asedau'r Cyngor yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella cadarn ac effeithiol. | Mae'r Cyngor yn defnyddio ei asedau yn well o lawer ac yn fwy strategol ond nid oes ganddo systemau cadarn na'r gallu i ddarparu gwybodaeth i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn ag asedau:<br>• mae'r Cyngor yn defnyddio ei asedau yn well o lawer ac yn fwy strategol ond nid yw wedi pennu costau ei Gynllun Rheoli Asedau Strategol, na faint o adnoddau sydd eu hangen arno, yn llawn;<br>• mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer rheoli asedau yn gorfforaethol ac mae'r rheolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ynglŷn ag asedau ym mhob rhan o'r sefydliad;<br>• mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid o ran y defnydd o'i asedau; ac<br>• nid oes gan y Gyngor systemau cadarn na'r gallu i ddarparu gwybodaeth i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn ag asedau. | C3 Sicrhau bod Cynllun Rheoli Asedau Strategol newydd y Cyngor yn gyson â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>C4 Sicrhau bod y systemau TG a ddefnyddir i gofnodi asedau yn rhoi cofnod llawn i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau strategol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | **Rheoli Risg**<br>Adolygiad i asesu p'un a oes gan y Cyngor drefniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer nodi risgiau. | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i reoli risgiau yn effeithiol, ond nid yw rhai cyfarwyddiaethau yn gweithredu ei bolisi rheoli risg yn gyson nac yn gadarn eto:<br>• mae uwch reolwyr ac Aelodau yn hyrwyddo gwaith rheoli risg ym mhob rhan o'r sefydliad; ac<br>• mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer nodi risgiau a'u cyfeirio'n uwch neu'n is, ac mae'n gweithio i sicrhau bod y fframwaith hwn yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob rhan o'r sefydliad. | C5 Datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gwella trefniadau rheoli risg.<br>C6 Nodi'n glir mewn achosion busnes ac adroddiadau sut y bydd camau lliniaru yn newid y statws risg.<br>C7 Sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn rhoi'r trefniadau rheoli risg ar waith yn gyson ac yn effeithiol. |
| | **Partneriaethau a Chydweithrediadau**<br>Adolygiad i asesu p'un a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gefnogi partneriaethau a chydweithrediadau, sy'n gwella canlyniadau. | Mae'r Cyngor yn datblygu trefniadau effeithiol i gefnogi partneriaethau a chydweithrediadau, ac mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy i wella cysondeb ei drefniadau rheoli gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau:<br>• mae'r Cyngor yn gallu cyfleu'r hyn y mae'n bwriadu i bartneriaethau a chydweithrediadau ei gyflawni'n gyffredinol, ond mae cyfleoedd i egluro canlyniadau bwriadedig penodol;<br>• mae'r Cyngor yn dechrau ffurfioli ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu ond nid yw'n rheoli'r trefniadau hyn yn strategol eto;<br>• mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth well i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau wrth ystyried trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, ond mae'n parhau i weithredu ar sail gymharol fyrdymor; ac<br>• mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, ac mae'n awyddus i fynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau. | C8 Egluro'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd a ddisgwylir o weithio mewn partneriaeth mewn achosion busnes ac adroddiadau ar bartneriaethau arfaethedig.<br>C9 Ymgysylltu â mentrau cymdeithasol er mwyn nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn meithrin gallu a datblygu cynaliadwyedd economaidd lleol hirdymor.<br>C10 Datblygu protocolau a systemau rhannu gwybodaeth sy'n cefnogi'r gwaith o integreiddio a rheoli data a gwybodaeth am bartneriaethau.<br>C11 Cynnwys data cymharol a llinellau sylfaen perfformiad mewn adroddiadau sy'n ei gwneud hi'n haws meintoli a gwerthuso pa ganlyniadau a gwelliannau y mae'r bartneriaeth yn eu cyflawni. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | **Adolygiad o Ansawdd Data 2015-16**<br>Adolygiad o gynnydd y Cyngor o ran gwella prosesau a rheolaethau ar gyfer casglu, prosesu a dadansoddi data. | Er bod ansawdd data wedi gwella, ceir trefniadau casglu data annigonol a rhywfaint o adrodd yn anghywir ar berfformiad o hyd:<br>• mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ansawdd data ond nid yw'r trefniadau hyn yn gwbl effeithiol eto;<br>• gwnaeth y Cyngor adrodd yn gywir ar 'nifer y prosiectau effeithlonrwydd ariannol sydd ar eu hôl hi';<br>• mae gan y system ddata a ddefnyddir i gofnodi nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol wendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw;<br>• mae gan y system ddata a ddefnyddir i gofnodi safon glendid priffyrdd wendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw;<br>• mae gan y system ddata a ddefnyddir i gofnodi pa mor gyflym y mae'r Cyngor yn delio â thipio anghyfreithlon wendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw. | C12 Sicrhau bod rheolwyr gweithredol yn cadw cofnodion digonol i ategu cyflwyniadau dangosyddion perfformiad.<br>C13 Sicrhau bod y rhai sy'n llunio dangosyddion perfformiad yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r diffiniad.<br>C14 Sefydlu rheolaethau mewnol effeithiol ar gyfer dilysu data ar berfformiad.<br>C15 Adolygu cadernid y systemau casglu data er mwyn sicrhau'r Cyngor bod y systemau yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion y diffiniad. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | **Adolygiad o Wasanaethau Gwastraff** | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ei berfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu, ond mae angen cynllun busnes hirdymor sydd wedi'i ystyried yn fanwl ac ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn darparu'r gwasanaeth yn effeithiol, gwella perfformiad ac osgoi cosbau ariannol posibl:<br>• mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella perfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu ond, hyd yma, nid yw wedi llunio cynllun busnes hirdymor sydd wedi'i ystyried yn fanwl er mwyn cefnogi gwelliant;<br>• ni wnaeth y Cyngor reoli'r newidiadau i wasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn effeithiol drwy gynnal cynlluniau peilot neu gyflwyno newidiadau yn raddol;<br>• mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd targedau statudol yn y dyfodol, ac er ei fod wedi mynd ati'n ddiweddar i lunio cynllun addysg ac ymgysylltu, mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd yn cynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu;<br>• mae'r trefniadau cytundebol presennol yn ddigon hyblyg i gefnogi newidiadau i wasanaethau; ac<br>• nid yw'r Cyngor wedi adrodd ar ei wybodaeth am fonitro a rheoli perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff yn effeithiol. | C1 Datblygu a chytuno ar gynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau statudol presennol ar gyfer perfformiad o ran gwastraff, a thargedau o'r fath yn y dyfodol, ac yn nodi'n glir y trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun.<br>C2 Gwerthuso'r gwaith o weithredu newidiadau diweddar i wasanaethau casglu gwastraff. Yn benodol:<br>• y gwaith o reoli'r prosiect yn gyffredinol;<br>• ansawdd y cynlluniau gwasanaeth fel ffactorau sy'n ysgogi gwelliant; a<br>• chyfleu'r newidiadau i drigolion lleol ac ymgysylltu â nhw yn eu cylch.<br>C3 Gwella ansawdd, amlder ac amseroldeb y gwaith o adrodd ar berfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad Byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2016 | **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant statudol. | Dim |
| **Adolygiadau gan Gyrff Arolygu a Rheoleiddio** | | | |
| Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau gan Gyrff Arolygu a Rheoleiddio yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. | | | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'.

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried pa mor debygol ydyw y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Hefyd, yr asesiad yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr Stephen Gillingham
Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Cyfeirnod: PA212/DO/hcj

Dyddiad: 28 Tachwedd 2016

Annwyl Stephen

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 27 Medi 2016. Cadarnhaodd hyn nad oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol ac na chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Caiff adroddiad manylach ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2016.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016, mewn perthynas â'i ddefnydd o adnoddau, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod trefniadau cydnerthedd ariannol y Cyngor yn parhau i wella yn wyneb rhai heriau ariannol sylweddol, ond gallai ei drefniadau cynllunio ariannol gael eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd allweddol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canfyddiadau canlynol:

a) roedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi proses gynllunio ariannol effeithiol ond roedd ganddo hanes cymysg o gyflawni'r arbedion bwriadedig a amlinellir yn ei gynigion cyllideb ac roedd rhai cynlluniau yn brin o fanylion allweddol;

b) roedd gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol ar waith, ac roedd wedi cyflwyno rhai trefniadau newydd i fynd i'r afael â gwendidau blaenorol ond nid oedd y rhain wedi'u hymgorffori'n llawn eto; ac

c) roedd gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ariannol effeithiol ar waith ar y cyfan, a oedd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016.

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2017 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**

**Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol a gafodd eu cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan SAC ers i'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gael ei gyhoeddi.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad yn 2014-15 (Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru: Ebrill 2015), gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd llawer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac roedd angen i awdurdodau wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â hwy yn ystod 2016-17. At hynny, gwnaethom hefyd yr argymhellion canlynol ar sail ein hadolygiad mwy diweddar.<br>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;<br>• alinio strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;<br>• categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a<br>• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Polisïau Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl corfforaethol.<br>A3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd y saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn gofyn i amrywiaeth o randdeiliaid – Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol – weithredu'n unigol ac ar y cyd.<br>A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, drwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.<br>A2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol.<br>A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol drwy:<br>• osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.<br>A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau Awdurdodau Lleol i Godi Tâl am Wasanaethau a Chynhyrchu Incwm | Gwnaeth yr adroddiad hwn wyth argymhelliad, yr oedd chwech ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhellion A4 ac A6 yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu.<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A5 Nodi cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymell y dylai swyddogion yr awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i wneud y canlynol:<br>• hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector;<br>• nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; ac<br>• ar y cyd, drafftio a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru